



Lleoliad delfrydol...



Mae teithio i Llys Eleanor ac oddi yno yn syml a hawdd gyda'r A494 yn agos iawn. O deithio tua'r de mae'r A55 3 milltir i ffwrdd, a thua'r gogledd gallwch gyrraedd Cilgwri ar yr A550 ymhen 3 milltir, neu fynd ar yr M56 o fewn 5 milltir.



Dyfodol diogel...

Mae Llys Eleanor yn ddatblygiad ar y cyd gan Gymdeithas Tai Clwyd Alun, rhan o Grŵp Tai Pennaf - un o'r darparwyr tai a gwasanaethau cysylltiedig uchaf eu parch sydd wedi hen sefydlu yng Ngogledd Cymru, a Chyngor Sir y Fflint - un o'r darparwyr gwasanaethau cyhoeddus amlycaf yn y rhanbarth.



Mae'r cynllun wedi ei ariannu yn rhannol gan Lywodraeth Cymru ac fe'i crëwyd gydag anghenion pobl h'n yn lleol dan sylw, gan weithwyr proffesiynol ym meysydd tai, gofal a chefnogaeth.



Eich cam nesaf...

Bwriadwyd i Llys Eleanor gynnig amgylchedd delfrydol ar gyfer eich holl anghenion yn y dyfodol - mewn fflat sylweddol, golau ac ysgafn a gynlluniwyd gan ystyried bywyd modern ac wedi ei inswleiddio i gynnig moethusrwydd effeithlon o ran ynni; cymuned wirioneddol gydag ymdeimlad gwirioneddol o groeso a chymdogaeth - y lle perffaith i ymlacio a gwneud ffrindiau newydd. Ac wrth i'ch angen am gefnogaeth a chymorth ychwanegol gynyddu, fe fyddwn yn addasu i ddiwallu'r anghenion hynny, i ganiatáu i chi fyw eich bywyd yn gyfforddus, mewn heddwch ac annibyniaeth lwyr. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Meini Prawf Cymhwyster a sut i ymgeisio am fflat yn y cynllun hwn, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Ffôn
0800 1835757

E-bost enquiries@
clwydalyn.co.uk

www.clwydalyn.co.uk



Ref: 000012 Edition 1



Cymdeithas Tai
CLWYD ALUN
Housing Association

Aelod o Grŵp Tai Pennaf



Llys Eleanor, Sir y Fflint



SHOTTON CH5 1EH

Agor Drysau, Gwella Bywydau

ar y cyd â



E-bost enquiries@clwydalyn.co.uk

Ffôn 0800 1835757

Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alun yn Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus Elusennol

72 Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JD

Eich cam nesaf...



Y gymuned...



Mae Llys Eleanor mewn sefyllfa ddefnyddol yn nhref brysur Shotton - ardal fywiog sydd ag ymdeimlad gwych o gymuned.


Mae gan Shotton ddewis eang o gyfleusterau gan gynnwys siopau, meddygfeydd, caffis a chanolfan hamdden - y cyfan o fewn cyrraedd ar droed.

Mae tref hardd Caer gerllaw, ond efallai y byddai'n well gan y preswylwyr y manau agored eang yng nghefn gwlad Gogledd Cymru neu'r arfordir trawiadol yn ymestyn hyd Fae Colwyn, Conwy a Llandudno.


Mae'r cysylltiadau teithio yn dda iawn gyda'r cynllun o fewn cyrraedd cyfleus i'r A55. Mae gwasanaethau tacsï a bws lleol ar gael ac mae Gorsaf Drenau Shotton ger llaw yn cynnig amserlen gynhwysfawr i'r rhai sydd am deithio ymhellach.



**FFLAT 2
YSTAFELL WELY**
696 tr sgwâr



**FFLAT 1
YSTAFELL WELY**
544 tr sgwâr



Byw'n Annibynnol...

Mae Byw'n Annibynnol yn ffordd flaengar i bobl hŷn feddwl am eu bywyd yn y cartref. Ar un llaw mae'n cynnig cyfle i chi fyw'n hollol annibynnol yn eich fflat eich hun; ar y llaw arall mae'n cynnig yr holl gefnogaeth a gofal sy'n angenrheidiol i roi tawelwch meddwl i chi:



- Mae gennych eich drws ffrynt eich hun a chi sy'n dewis pwy sy'n dod i mewn
- Mae gennych ddiogelwch a thawelwch meddwl
- Chi sy'n rheoli eich arian
- Mae eich dewisiadau a'ch preifatrwydd yn cael eu parchu
- Gall cyplau a ffrindiau aros gyda'i gilydd
- Mae gofal a chefnogaeth ar gael, yn ddibynol ar asesiad
- Nid oes gennych unrhyw bryderon am gynnal a chadw
- Mae'r cynllun byw'n annibynnol yn hollol hygyrch i gadeiriau olwyn

Nodweddion allweddol

- Fflatiau 1 a 2 ystafell wely gydag ystafelloedd cawod en suite
- Yn gyfleus i gyrraedd yr holl gyfleusterau lleol
- Gerddi wedi eu tirlunio yn hardd
- Dim pryderon am gynnal a chadw
- Hygyrch i gadeiriau olwyn
- Tair lifft
- Amgylchedd diogel
- Salon trin gwallt
- Bwyty o safon uchel yn cynnig cynnyrch ffres
- Campfa gyda'r holl offer angenrheidiol
- Llyfrgell / Ystafell TG
- Ystafell ddiddordebau/gweithgareddau
- Lolfa gymunedol glyd
- Golchdy
- Ystafell haul olau ac agored
- Teras Haul
- Sinema

